



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

Wales Cymru

Mae Addysg Ran Amser yn Bwysig: Addysg uwch sy'n gweithio i Gymru

Mae addysg uwch rhan amser yn newid bywydau ac yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru. Ond mae nifer y myfyrwyr rhan amser yn gostwng ac mae llai o gyrsiau yn cael eu cynnig. Er mwyn i Gymru ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y drws i addysg uwch rhan amser yn aros yn agored.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r darparwr addysg uwch israddedig rhan amser mwyaf blaenllaw yng Nghymru. Isod nodir saith ffordd o gefnogi astudiaeth rhan amser a chreu system addysg uwch sy'n gweithio i Gymru.

Dysgu sy'n Newid Bywydau



Mae'r cyfle i ddysgu'n rhan amser yn rhoi'r cyfle i bobl wella eu sgiliau neu ailhyfforddi tra byddant yn gweithio neu'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru ac mae'n bwysicach fyth pan fyddwn yn ystyried y newidiadau demograffig yn y blynyddoedd i ddod, sy'n golygu bod yn rhaid i ni ddatblygu ein gweithlu presennol. Mae astudio'n rhan amser hefyd yn rhoi cyfle i bobl fanteisio ar addysg os gwnaethant golli allan pan oeddent yn ifanc.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn argymhell saith maes ar gyfer gweithredu er mwyn cefnogi addysg uwch ran amser:

- 1. Parch cydradd i addysg uwch lawn amser ac addysg uwch ran amser**
- 2. System gyllido gynaliadwy**
- 3. Ehangu cyfleoedd i astudio'n rhan amser mewn cyflogaeth**
- 4. Cefnogaeth i fentrau ehangu mynediad**
- 5. Gwella gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar opsiynau astudio'n rhan amser**
- 6. Benthyciadau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig**
- 7. Annog arloesed digidol mewn addysg uwch a dysgu ar-lein**

Mae gan Y Brifysgol Agored fwy na 7,000 o fyfyrwyr ledled Cymru, gyda myfyrwyr ym mhob un o etholaethau'r Cynulliad. Mae dros 40,000 o fyfyrwyr rhan amser yn astudio ar lefel addysg uwch (AU) yng Nghymru. Mae tua 30,000 o'r rhain yn astudio ar lefel israddedig. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio addysg uwch ran amser yng Nghymru yn gostwng; cafwyd cwmp o 11% yn nifer y myfyrwyr rhan amser rhwng 2009/10 a 2013/14. Dros y ffin yn Lloegr, cafwyd cwmp hyd yn oed yn fwy sylweddol. Fel yr unig brifysgol sy'n gweithredu ar draws bob un o bedair gwlad y DU, mae'r Brifysgol Agored mewn sefyllfa dda i gynnig arsylwadau ac argymhellion er mwyn atal dirywiad pellach yng Nghymru a chefnogi dysgwyr rhan amser.

Saith ffordd o gefnogi addysg uwch ran amser

1. Parch cydradd i addysg uwch lawn amser ac addysg uwch ran amser

Dylai fod gan unigolion yr hawl i astudio'n rhan amser ac ni ddylent fod dan anfantais am eu bod yn dewis gwneud hynny. Bydd system addysg uwch hygrych â pharch cydradd wrth ei gwraidd. Nid yw hyn yn golygu defnyddio'r un system ar gyfer dulliau astudio llawn amser a rhan amser; yn hytrach, mae'n golygu ystyried anghenion y ddau grŵp o fyfyrwyr a sicrhau y cânt gymorth a chyfleoedd cyfartal.

2. System gyllido gynaliadwy

Mae'r system gyllido bresennol – yn benodol y grant ffioedd hael nad yw'n seiliedig ar brawf modd i fyfyrwyr israddedig llawn amser – o fantais anghymesur i fyfyrwyr ifancach sydd am astudio'n llawn amser ac nid yw'n gynaliadwy. Mae'n debygol o arwain at ostyngiad pellach yn nifer y myfyrwyr rhan amser. Rhaid darparu datrysiad cyllido cynaliadwy ar gyfer Addysg Uwch sydd â hyblygrwydd wrth ei wraidd ar fyrder (cyn gynted â phosibl yn dilyn yr adroddiad ar Adolygiad Diamond). Dylai hyn gynnwys ail-gydbwysu buddsoddiad cyhoeddus rhwng addysg llawn amser a rhan amser a chydwybwydd teg rhwng buddsoddiad myfyrwyr a buddsoddiad cyhoeddus. Dylid canolbwyntio cymorth ychwanegol (megis y grant cwrs) lle y mae ei angen fwyaf. Dylid hefyd ystyried y syniad o gael Cyfrif Dysgu Personol neu Gyfrif Gyrfa a allai ddefnyddio arian cyhoeddus fel arian cyfatebol i fuddsoddiad unigolyn yn ei addysg a'i ddatblygiad gyrfa.

3. Ehangu cyfleoedd i astudio'n rhan amser mewn cyflogaeth

Dylai mentrau ailhyfforddi Llywodraeth Cymru gynnwys Y Brifysgol Agored a / neu ddysgu o bell fel opsiynau er mwyn galluogi pobl i ail-ymuno â'r farchnad lafur ac ailhyfforddi ar yr un pryd. Dylid hefyd cynnig cymhellion i gyflogwyr (yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol) a sefydliadau cyflogwyr i ymgysylltu â phrosesau gwella sgiliau a dysgu seiliedig ar waith. Mae'n bwysig sicrhau bod costau dysgu hyblyg rhan amser yn aros yn fforddiadwy er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael i'r rhai sy'n cael cymorth drwy gyflogwyr a'r rhai sy'n awyddus i ariannu eu hunain.

4. Cefnogaeth i fentrau ehangu mynediad

Dylid cadw'r premiwm ehangu mynediad a delir fesul pen i sefydliadau. Fodd bynnag, nid y gyfundrefn ehangu mynediad bresennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi myfyrwyr o'r incymau isaf i AU, yn enwedig o ran darpariaeth ran amser. Dylai'r pecyn cymorth a chynhaliaeth cyffredinol i fyfyrwyr ganolbwyntio o'r newydd ar y rhai sydd â'r angen mwyaf a dylid rhoi cymorth i sefydliadau i ehangu eu harlwy i gynnwys cyrsiau byrrach. Mae'n rhaid diogelu Lwfansau Myfyrwyr Anabl a dylid ystyried anghenion gwahanol iawn myfyrwyr sy'n dysgu o bell gartref yn hytrach nag ar y campws.



5. Gwella gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar opsiynau astudio'n rhan amser

Mae'n rhaid gwneud mwy i hyrwyddo'r llwybrau amrywiol a'r llwybrau amgen i AU ar gyfer pobl dros 25 oed a allai fod wedi colli allan ar y llwybrau confensiynol y tro cyntaf. Dylai gwasanaethau arweiniad gyrfaoedd weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir darparu gwasanaeth cyngor gyrfaoedd ac addysg i bob oedran. Ym maes cymorth ariannol, dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru groesawu ceisiadau ar gyfer benthyciadau rhan amser yr un pryd â cheisiadau llawn amser a dylai'r ddau fod ar gael i'w cwblhau ar-lein. Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru a chyrrff perthnasol eraill hefyd roi llawer mwy o gyhoeddusrwydd i fenthyciadau rhan amser.

6. Benthyciadau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system benthyciadau ôl-raddedig sy'n agored i bob oedran a dull o astudio, gan gynnwys dysgu o bell.

7. Annog arloesed digidol mewn addysg uwch a dysgu ar-lein

Dylai Llywodraeth Cymru a phrifysgolion yng Nghymru weithredu argymhellion 'Agored ac Ar-lein' sef adroddiad y Gweithgor Dysgu Digidol Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth o bosibilrwydd dysgu ar-lein er mwyn cefnogi datblygiad economaidd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi'r Brifysgol Agored fel ased allweddol drwy hyrwyddo ei llwyfannau dysgu ar-lein a'i hystyried yn bartner allweddol yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad ar-lein.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn annog gwleidyddion Cymru i gofio bod addysg ran amser yn bwysig...i'r economi, i unigolion, i gymunedau ac i Gymru.

Gellir dod o hyd i ddogfen fanylach sy'n ehangu ar y syniadau hyn yn:

www.open.ac.uk/cymru/polisi

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Michelle Matheron, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus:

Michelle.Matheron@open.ac.uk

Mae'r Brifysgol Agored wedi ei hymgorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriadig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrddig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored yn cael ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.